Gwybodaeth i rieni
Tymor yr Hydref 2021

Dyma grynodeb o'r hyn a gyflwynir i'r plant yn ystod Tymor yr Hydref:

Mathemateg - Blwyddyn 3 a 4

Rhif - Deall a datrys problemau o fewn y pedwar gweithrediad, gan ddefnyddio dulliau mathemateg pen a dulliau ysgrifenedig. Trefnu a thalgrynnu rhifau a deall gwerth digidau. Cyflwyno ffracsiynau syml, gan ddefnyddio haneri a chwarteri. Datrys problemau'n ymwneud ag arian a 'bywyd go iawn.'

Siâp a Mesurau - Gwaith amser ar gloc analog i'r pum munud agosaf. Adnabod a chategoreiddio siapiau 2D a 3D. Adnabod perimedr siâp a llinellau cymesuredd siapiau 2D. Gwybod y berthynas rhwng m, cm a mm.

Trin data - Casglu, cyflwyno a dadansoddi data.

Gwyddoniaeth - Myfi fy hun

Cynllunio, datblygu a gweithredu ymchwiliad sy'n hybu gwaith unigol, annibynnol, rhagfynegi canlyniadau a chynnig syniadau. Defnyddio gwahanol fathau o ddulliau i gofnodi canlyniadau. Yn ystod y tymor, bydd y disgyblion yn astudio'r canlynol: y sgerbwd, prif organau'r corff, bwyta'n iach a dannedd.

Addysg Grefyddol

Stori'r Creu. Gofalu am ein byd.
Stori Porthi'r Pum Mil – trafod newyn yn y byd.
Dathlu Diwali a Nadolig.

Thema

Ein thema ar gyfer y tymor hwn yw:

Ein byd a'n pobl

Dyma rai o syniadau'r disgyblion:

Astudio'r llyfr Guto Nyth Brân—Pwy oedd e?

Creu cerflun;

Astudio gwaith Aneurin Jones a Pablo Picasso;

Edrych ar fwydydd a diodydd lleol, o Gymru ac o gwmpas y byd;

Masnach deg;

Creu animeddiad;

Edrych ar ddeiet athletwr.